

## LIC25-75

### TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

#### Gorchymyn Cefnffyrdd yr A470 a'r A483 (Llanfair-ym-Muallt, Powys) (Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2025

*Gwnaed* 24 Hydref 2025  
*Yn dod i rym* 3 Tachwedd 2025

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer cefnffyrdd yr A470 a'r A483, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r cefnffyrdd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffyrdd neu gerllaw iddynt.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

#### Enwi a chychwyn

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffyrdd yr A470 a'r A483 (Llanfair-ym-Muallt, Powys) (Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2025 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 3 Tachwedd 2025.

#### Dehongli

##### 2. Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw cyfnodau ysbeidiol sy'n dechrau am 09:00 o'r gloch ar 3 Tachwedd 2025 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod gwaith eu symud ymaith yn barhaol;

(1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

## WG25-75

### ROAD TRAFFIC, WALES

#### The A470 and A483 Trunk Roads (Builth Wells, Powys) (Temporary Traffic Prohibitions) Order 2025

*Made* 24 October 2025  
*Coming into force* 3 November 2025

The Welsh Ministers, as traffic authority for the A470 and A483 trunk roads, are satisfied that traffic on specified lengths of the trunk roads should be prohibited because of works proposed on or near the roads.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1) and (4) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

#### Title and commencement

1. The title of this Order is the A470 and A483 Trunk Roads (Builth Wells, Powys) (Temporary Traffic Prohibitions) Order 2025 and this Order comes into force on 3 November 2025.

#### Interpretation

##### 2. In this Order—

“the trunk road” (“*y gefnffordd*”) means the A470 Cardiff to Llangurig trunk road and the A483 Swansea to Manchester trunk road;

(1) 1984 c. 27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c. 26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32), these functions are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw cefnffordd yr A470 Caerdydd i Langurig a chefnffordd yr A483 Abertawe i Fanceinion.

## Gwaharddiadau

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

4. Ac eithrio fel a ddarperir yn erthygl 5, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd aros ar y darnau o'r gefnffordd a ddisgrifir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn, ac eithrio ar gyfarwyddyd neu gyda chaniatâd cwnstabl heddlu, swyddog cymorth cymunedol yr heddlu neu swyddog gorfodi parcio sifil.

## Esemptiadau

5. Caiff person beri neu ganiatáu i unrhyw gerbyd stopio neu aros ar y darnau o'r gefnffordd a ddisgrifir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn cyhyd ag sy'n angenrheidiol i alluogi—

- (a) cerbyd i gael ei ddefnyddio at ddibenion yr heddlu, y frigâd dân neu'r gwasanaeth ambiwlans;
- (b) cerbyd i gael ei ddefnyddio mewn cysylltiad ag unrhyw un neu ragor o'r gweithrediadau a ganlyn:
  - (i) gwaith adeiladu, gwaith diwydiannol neu waith dymchwel;
  - (ii) symud unrhyw rwystr i draffig;
  - (iii) cynnal a chadw, gwella neu ailadeiladu'r darnau o'r gefnffordd; neu
  - (iv) gosod, codi, addasu neu atgyweirio yn y darn o'r gefnffordd, neu mewn tir cyfagos, unrhyw garthffos neu unrhyw brif bibell, unrhyw bibell neu unrhyw gyfarpar ar gyfer cyflenwi nwy, dŵr neu drydan neu unrhyw gyfarpar cyfathrebu electronig fel y'i diffinnir ym mharagraff 5 o Atodlen 3A i Ddeddf Cyfathrebiadau 2003(1);
- (c) cerbyd i gael ei ddefnyddio yng ngwasanaeth awdurdod lleol yn unol â phwerau neu ddyletswyddau statudol;
- (d) cerbyd i stopio neu aros pan fo'r person sydd â rheolaeth arno'n gwneud y canlynol:
  - (i) pan fydd yn ofynnol yn ôl y gyfraith iddo wneud hynny;
  - (ii) pan fydd yn gorfod stopio er mwyn osgoi damwain; neu

“works period” (“*cyfnod y gwaith*”) means intermittent periods commencing at 09:00 hours on 3 November 2025 and ending when the temporary traffic signs for each period of works are permanently removed.

## Prohibitions

3. No person may, during the works period, drive any vehicle on the length of the trunk road described in Schedule 1 to this Order.

4. Except as provided in article 5, no person may, during the works period, cause or permit any vehicle to wait on the lengths of the trunk road described in the Schedule 2 to this Order, except on the direction or with the permission of a police constable, police community support officer or civil parking enforcement officer.

## Exemptions

5. A person may cause or permit any vehicle to stop or wait on the lengths of the trunk road described in Schedule 2 to this Order for so long as may be necessary to enable—

- (a) a vehicle to be used for police, fire brigade or ambulance purposes;
- (b) a vehicle to be used in connection with any of the following operations:
  - (i) building, industrial or demolition operations;
  - (ii) the removal of any obstruction to traffic;
  - (iii) the maintenance, improvement or reconstruction of the lengths of the trunk road; or
  - (iv) the laying, erection, alteration or repair in, or in land adjacent to, the length of the trunk road of any sewer or of any main, pipe or apparatus for the supply of gas, water or electricity or any electronic communications apparatus as defined in paragraph 5 of Schedule 3A to the Communications Act 2003(1);
- (c) a vehicle to be used in the service of a local authority in pursuance of statutory powers or duties;
- (d) a vehicle to stop or wait when the person in control of it:
  - (i) is required by law to stop;
  - (ii) is obliged to stop to avoid an accident; or

(iii) pan gaiff ei rwystro rhag mynd yn ei flaen gan amgylchiadau sydd y tu hwnt i'w reolaeth.

(iii) is prevented from proceeding by circumstances outside that person's control.

## Cymhwyso

6. Ni fydd y gwaharddiadau yn erthyglau 3 a 4 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

## Application

6. The prohibitions in articles 3 and 4 apply only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

## Cyfnod para'r Gorchymyn hwn

7. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

## Duration of this Order

7. The maximum duration of this Order is 18 months.

Llofnodwyd ar ran Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru.

Signed on behalf of the Cabinet Secretary for Transport and North Wales, one of the Welsh Ministers.

Dyddiedig

24 Hydref 2025

Dated

24 October 2025

*Nicci Hunter*

Arweinydd y Tîm Busnes  
Llywodraeth Cymru

*Nicci Hunter*

Business Team Leader  
Welsh Government

## ATODLEN 1

Y darn o gefnffordd yr A470 Castle Street sy'n ymestyn o ganolbwynt ei chyffordd â'r A470 Hay Road hyd at ganolbwynt ei chyffordd â'r A483 Broad Street a'r A483 Station Road.

## SCHEDULE 1

The length of the A470 Castle Street that extends from the centre-point of its junction with the A470 Hay Road to the centre-point of its junction with the A483 Broad Street and A483 Station Road.

## ATODLEN 2

Y darn o ochr gogledd-orllewinol yr A483 Broad Street sy'n ymestyn o bwynt 1 metr i'r de-orllewin o ffin eiddo Rhifau 5 a 7 Broad Street i ganolbwynt ei chyffordd â King's Head Lane.

## SCHEDULE 2

The length of the north-western side of the A483 Broad Street that extends from a point 1 metre south-west of the property boundary of Numbers 5 and 7 Broad Street to the centre-point of its junction with King's Head Lane.

Y darn o ochr gogledd-orllewinol yr A483 High Street sy'n ymestyn o ganolbwynt ei chyffordd â King's Head Lane i bwynt 4.5 metr i'r de-orllewin o ffin eiddo Rhifau 5 a 7 High Street.

The length of the north-western side of the A483 High Street that extends from the centre-point of its junction with King's Head Lane to a point 4.5 metres south-west of the property boundary of Numbers 5 and 7 High Street.

Y darn o ochr gogledd-orllewinol yr A483 High Street sy'n ymestyn o bwynt 3.5 metr i'r gogledd-ddwyrain o ffin eiddo Rhifau 27 a 29 High Street i ganolbwynt ei chyffordd â Strand Street.

The length of the north-western side of the A483 High Street that extends from a point 3.5 metres north-east of the property boundary of Numbers 27 and 29 High Street to the centre-point of its junction with Strand Street.